# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

## Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

# DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

# WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

# A GYFLWYNWYD / TABLED ON

# 19/1/2000

## R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-1999-0088 Canolfan Iechyd Meddwl Lôn yr Abaty, Bangor/ The Abbey Road Mental Health Centre, Bangor

17 January 2000 gan/by Christine Humphreys, Peter Rodgers, Mick Bates, Gareth Jones

2 llofnodwyr/Subscribers
Michael German
Jenny Randerson

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod pwysigrwydd y gwasanaethau a ddarperir gan y myrdd gyrff iechyd meddwl sydd wedi gwneud eu cartref yng Nghanolfan Iechyd Meddwl Lôn yr Abaty ym Mangor. Mae’r Cynulliad yn gresynu’r newyddion bod y ganolfan ar fin cael ei gwerthu gan Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru ac yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i ymyrryd er mwyn rhwystro’r Ganolfan rhag cau.

The National Assembly recognises the importance of the services provided by the many mental health organisations that occupy the Abbey Road Mental Health Centre, Bangor. The Assembly regrets the news that the centre is to be sold off by North Wales Health Authority and calls upon the First Secretary to intervene to prevent the Centre's closure.

## OPIN-1999-0089 Lleihau dyledion gwledydd tlawd y byd/ Reducing Poor Countries Debts

18 January 2000 gan/by Jonathon Morgan, Michael German, John Griffiths, Rhodri Glyn Thomas

3 llofnodwyr /Subscribers
Mick Bates
Peter Black
Christine Humphreys

*Mae'r Cynulliad hwn yn croesawu datganiad Canghellor y Trysorlys am ddileu dyledion y 41 o wledydd sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun y Gwledydd Tlawd Trwm eu Dyledion (GTTD), ac yn credu y dylai'r Canghellor gymryd y camau canlynol ychwanegol i leihau'r baich o ddyled ar bobl dlotaf y byd:*

- *pwyso dros gynnwys yng nghynllun lleddfu dyledion y GTTD bob un o'r 52 o wledydd a enwyd gan Jiwbili 2000*
- *galw ar y G7 i gynnal cyfarfod arbennig cyn gynted â phosibl eleni i drafod dyled*

*This Assembly welcomes the Chancellor of the Exchequer's announcement of debt cancellation for the 41 countries included in the Heavily Indebted Poor Countries (HIPC) initiative, and believes the Chancellor should take the following additional steps to ease the burden of debt on the world's poorest people:*

- *press for all 52 countries named by Jubilee 2000 to be included in the HIPC debt-relief scheme*
- *call on the G7 to hold a special meeting as early as possible this year to discuss debt*

## OPIN-1999-0090 Lwfansau'r Cabinet yng Nghyngor Sir Caerdydd/Cabinet Allowances at Cardiff County Council

18 January 2000 gan/by Jonathan Morgan, David Melding

2 llofnodwyr /Subscribers
Owen John Thomas
Peter Rogers

*Mae'r Cynulliad yn ceryddu cabinet Cyngor Sir Caerdydd am*

- *gynyddu eu lwfansau yn aruthrol cyn ystyried yr Adroddiad sydd ar fin cael ei gyhoeddi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar y mater hwn, a;*
- *gwrthod caniatáu cyfle i'r Cyngor llawn gymeradwyo neu newid codiadau o'r fath.*

*Ymhellach, mae'r Cynulliad hwn yn annog Arglwydd Faer Caerdydd a chabinet y Cyngor i:*

- *ofyn i Gomisiwn Parkinson sicrhau bod ei gasgliadau yn gyson â'r canllawiau a bennir gan Adroddiad CLlLC pan y'i cyhoeddir, ac yn y cyfamser;*
- *gwrthod y lwfansau ychwanegol tan y bydd Comisiwn Parkinson wedi cyhoeddi cynigion newydd i'r Cyngor llawn eu hystyried.*

*This Assembly censures the cabinet of Cardiff County Council for:*

- *implementing massive increases to their allowances before considering the impending WLGA Report on this issue, and;*
- *refusing to allow full Council an opportunity to approve or amend such increases.*

*Furthermore, this Assembly urges the Lord Mayor of Cardiff and the Council cabinet to:*

- *ask the Parkinson Commission to bring its findings into line with guidelines set by the WLGA Report when published, and in the meantime;*
- *refuse additional allowances until the Parkinson Commission has returned with fresh proposals for consideration by the full Council.*

## OPIN-1999-0091 Ymchwiliad I farwolaeth Robert Powell/Inquiry into Robert Powell's death

19 January 2000 gan/by
Kirsty Wiliiams
Peter Black
Mick Bates
Christine Humphreys

0 llofnodwyr /Subscribers

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i gychwyn ymchwiliad llawn a thrylwyr i farwolaeth drist Robert Powell o Ystradgynlais yn 10 mlwydd oed ac i'r ffordd y cafodd cwynion ei rieni wedi hynny eu camdrafod. Mae'r Cynulliad yn galw am drefn gwyno

agored ac atebol yn yr NHS. Mae teuluoedd yn haeddu cael gwybod y gwir am farwolaeth un o'u hanwyliaid.

The National Assembly calls upon the First Secretary to instigate a full and complete inquiry into the tragic death of Robert Powell from Ystradgynlais aged 10 years old and the subsequent mishandling of his parents' complaints. The assembly calls for the NHS complaint procedures to be open and accountable. Families deserve to know the truth about the death of a loved one.

## OPIN-1999-0092 Y Frenhiniaeth yn yr 21ain ganrif/ The Monarchy in the 21st Century

19 January gan/by David Melding

0 llofnodwyr/subscribers

Mae'r Cynulliad hwn yn credu y dylai'r deddfau sy'n rheoli olyniaeth a choroni'r Brenin neu Frenhines adlewyrchu gwerthoedd Cymru yn yr 21ain ganrif. Mae'r Cynulliad hwn yn annog y Senedd i:

- gael gwared o wahaniaethu yn erbyn menywod drwy ddiddymu cyntafanedigaeth
- diddymu gwahaniaethu yn erbyn Catholigion drwy gael gwared o'r darpariaethau sy'n gwahardd Catholigion a rhai sy'n briod â Chatholigion rhag esgyn i'r Orsedd, ac;
- adlewyrchu cymeriad eciwmenaidd ac aml-ffydd Cymru a'r DU drwy newid llw'r coroni fel y ceir gwared o ddyletswydd y brenin neu'r frenhines i amddiffyn "*Y Grefydd Brotestannaidd"* a'i newid am ymrwymiad i gynnal Cristnogaeth a pharchu pob ffydd gydnabyddedig.

This Assembly believes the laws that govern the succession and coronation of the Monarch need to reflect the values of Wales in the 21st Century. This Assembly urges Parliament to:

- remove discrimination against women by abolishing primogeniture;

- eliminate discrimination against Catholics through the removal of provisions that exclude Catholics and persons married to Catholics from the Throne, and;

- reflect the ecumenical and multi-faith character of Wales and the UK by amending the coronation oath to replace the duty of the sovereign to uphold the *"Protestant religion"* with a commitment to uphold Christianity and respect all recognised faiths.

## OPIN-1999-0092 Cyfarwyddyd Cynllunio Glo Brig/ Open Cast

# Planning Guidance

19 January gan/by Huw Lewis

0 llofnodwyr/subscribers

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn credu y dylid cynnwys yng Nghyfarwyddyd Cynllunio Mwynau (Cymru) ardal waharddedig orfodol o 500 medr rhwng wyneb datblygiad glo brig ac ardaloedd preswyl lleol. Dylai hyn fod o gymorth i sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu diogelu rhag effeithiau gwaethaf cloddio glo brig. Dylid cyhoeddi cyfarwyddyd pellach pan fydd nifer o geisiadau cynllunio glo brig wedi cael eu gwneud ar gyfer lleoliad arbennig er mwyn sicrhau bod yr effeithiau a gaiff nifer o gynlluniau ar gymuned yn ystyriaeth ganolog i’r broses gynllunio.

The National Assembly believes that a mandatory 500 metre exclusion zone between the face of open cast development and local residential areas should be included in the Mineral Planning Guidance (Wales). This should help to ensure that local communities are safe guarded against the worst effects of open cast mining. Additionally guidance should be issued when a number of opencast planning applications have been made in a particular locality to ensure that the effect of multiple schemes on a community should be a central concern of the planning process.